

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain GORFFENNAF 2026. CAPEL GAD BODFFORDD.

PRESENNOL:

Cyng. R G Parry (Cadeirydd) Cyng. Mrs B Jones (Is Gadeiryddes) Cyng. J Evans, G Jones, J E Lewis, W R Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Ms N Dafydd.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 16eg MEHEFIN 2026 YN RHAI CYWIR:

Cynnig Cyng. J Evans eilo Cyng. R R Roberts.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Cyng. Mrs B Jones wedi derbyn y Swydd o Is-Gadeiryddes. Dymuno y gorau iddi.

Am fod Rhaglen a Cofnodion y Cyngor ar y Wefan nid ydyw yn orfodol iddynt fod yn yr Hysbysfordiadau ym Modffordd a Bodwrog.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2026/138. Cais llawn ar gyfer lleoli 32 gynwysyddion storio a chodi ffens yn:- Plot 7. Parc Diwydiannol Mona, Bodffordd.
Dim gwrthwynebiad.
Cynnig Cyng. G Jones, eilo Cyng. W R Parry.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Adran 119. Cais i wyro llwybr cyhoeddus Rhif 26. Bodwrog. Bodffordd. Bryntwrog Bach (Bryntwrog Isaf)
Caniatad. Y Cyngor yn derbyn a'r ol cefnogi. Nawr yn Swyddogol.
3. Adran 118. Cais diddymu llwybr cyhoeddus Rhif 34. Bodwrog, Bodffordd.
Cae Bach, Llynfaes (Ffynnon dros y ffordd yn y cae i'r Neuadd Goffa, Bodwrog.)
Cyngor Sir wedi anfon ymlaen i Cyfoeth Naturiol Cymru am ei barn.
Derbyn yr ymateb. Y Cyngor wedi cefnogi i gau'r llwybr.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Y Cyngor Cymdeithas yn gefnogol iawn i'r darpariaeth i bobl sydd yn defnyddio Cadair Olwyn ar draethau yn Ynys Môn. Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, ceir Cadeiriau OLwyn Traeth yn Benllech a Llanddwyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach (yn ddiolchgar iddynt) mwy o gadeiriau pwrpasol i'w defnyddio ar dywod (Teiars Mawr) Hefyd y Fenter Gwasanaeth Morwrol bydd

RHYBUDD AM ORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS
DEDDF PRIFYRDD 1980

GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL (LLWYBR TROED RHIF 26 YNG NGHYMUNED
BODFFORDD) GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS 2026

Bydd y Gorchymyn uchod wnaethpwyd ar 23ain Mehefin 2026 dan Adran 119 o'r Ddeddf Prifffyrdd 1980 yn gwyro'r llwybr cyhoeddus **sy'n rhedeg**:

O'r ffordd sirol ym mhwynt A (SH4154179797), mae'r llwybr yn mynd tua'r gorllewin ar hyd y ffordd sy'n gwasanaethu Bryntwrog Bach ac yn mynd heibio i'r gogledd o'r tŷ. Mae'n parhau tua'r gorllewin ar wyneb metel i bwynt B, lle mae'n mynd i mewn i gae, yn parhau i ddechrau ar hyd ymyl cae, ac yna'n troi i ffwrdd o'r terfyn am tua 46M ac yn dod i ben ym mhwynt C (SH4137979819). Mae'r hyd cyfan tua 175M ac nid oes ganddo led wedi'i gofnodi.

i drywydd **sy'n rhedeg**:

O'r ffordd sirol ym mhwynt D (SH4155679883) mae'r llwybr yn mynd i mewn i gae drwy giât cae ac yn mynd tua'r Gorllewin-Gogledd-orllewin am 11M i giât cae ym mhwynt E. Yna mae'n mynd tua'r De-orllewin ar draws y cae nesaf i'r ffens terfyn ym mhwynt F, lle bydd angen giât i gerddwyr. Mae'n parhau tua'r gorllewin yn y cae nesaf i fwch mewn wal derfyn rhwng 2 gae (Pwynt G), yna'n parhau tua'r De-orllewin yn y cae nesaf am tua 31M i orffen ym mhwynt C (SH4137979819). Mae'r hyd cyfan tua 203M a'i led fydd 2M.

Mae'n bosib i'r cyhoedd archwilio copi o'r Gorchymyn a'r Map yn Swyddfa'r Cyngor, Llangefni drwy apwyntiad neu yn llyfrgell Llangefni. Neu bydd copi o'r dogfennau uchod ar gael ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk/gorchymynion-cyfreithiol. Fe ddanfonir copi caled o'r dogfennau uchod drwy'r post ar gais ac am ddim os cysylltwch â SiwanJones@ynysmon.llyw.cymru neu 01248 752591 (yn ystod oriau swyddfa arferol).

Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn neu wrthwynebiad iddo mewn ysgrifen at Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Sir, Llangefni cyn 24ain Gorffennaf 2026 gan ddatgan y rheswm dros eu cyflwyno. Bydd y rhain ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Oni chyflwynir sylwadau neu wrthwynebiadau yn y modd uchod neu os tynnir hwynt yn ôl gall Cyngor Sir Ynys Môn gadarnhau'r Gorchymyn eu hunain fel Gorchymyn diwrthwynebiad. Os cyflwynir y Gorchymyn i Lywodraeth Cymru i'w gadarnhau yna amgaeir y sylwadau neu wrthwynebiadau gyda'r Gorchymyn oni thynnwyd hwy yn ôl.

DYDDIEDIG

24/06/2026

DATED



Lynn Ball

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Direction of Function (Council Business)/Monitoring Officer
Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Swyddfa'r Sir/County Offices, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r uchod ffoniwch Adran Gyfreithiol ar Llangefni 01248 752591 Par: HT-027692-SMJ

Croeso i chi ddellio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

NOTICE OF PUBLIC PATH ORDER
HIGHWAYS ACT 1980

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY
COUNCIL (FOOTPATH NO.26 IN THE COMMUNITY OF
BODFFORDD) PUBLIC PATH DIVERSION ORDER 2026

The above Order, made on 23th June 2026, under Section 119 of the Highways Act 1980, will divert the Public Footpath **running**:

From the county road at point A (SH4154179797), the path proceeds west along the drive serving Bryntwrog Bach and passes north of the house. It continues west on a metalised surface to point B, where it enters a field, initially continues along a field edge, and then veers away from the boundary for approximately 46M and terminates at point C (SH4137979819). The total length is approximately 175M and it has no recorded width.

to a line **running**:

From the county road at point D (SH4155679883) the path enters a field through a field gate and proceeds WNW for 11M to a field gate at point E. It proceeds SW across the next enclosure to the boundary fence at point F, where a pedestrian gate will be needed. It continues west in the next enclosure to a gap in a boundary wall between 2 fields (Point G), then continues SW in the next enclosure for approximately 31M to end at point C (SH4137979819). The total length is approximately 203M and its width shall be 2M.

It is possible to inspect a copy of the Order and Order Map at the Council Offices, Llangefni by appointment or at Llangefni library. Alternatively, copies of the above documents are available on the Council's website www.anglesey.gov.uk/legal-orders or hard copies of the above documents will be sent in the post free of charge on request if you contact SiwanJones@ynysmon.llyw.cymru or 01248 752591 (during normal office hours).

Any representation about or objections to the Order may be sent in writing to the Legal Services Manager, Isle of Anglesey County Council, County Offices, Llangefni not later than the 24th July 2026. Please state the grounds on which they are made. These will be available for public inspection.

If no representations or objections are duly made, or if any so made are withdrawn, Isle of Anglesey County Council may confirm the Order as an unopposed Order. If the Order is sent to the Welsh Government for confirmation any representations and objections which have not been withdrawn will be sent with the Order.

For further information regarding the above please telephone Legal Section on Llangefni 01248 752591 Ref: HT-027692-SMJ

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

Wardeniaid Traeth Tymorol yn cael ei cyflogi ar hyd a lled yr Ynys i helpu ymwelwyr. Yng Ngwarchogion a Choedwig Niwbwrch bydd "Mobi Mat" symudol plastig i wneud gwell mynediad i'r traeth. Haf hwn bydd 2 Gadair Olwyn i Oedolion 1 i Blant ym Menllech gyda 1 ac 1 yn Llanddwyn.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.

Mae dros 700 o blant yn dysgu sgiliau diogelwch a dwr.

Wedi dysgu nofio drwy Raglen Diogelwch Diweddaraf "Môn Actif". Disgyblion blwyddyn 5 a 6 sydd yn cael cynnig y sesiynau diogelwch dwr ymarferol dros 12 diwrnod.

Y Cyngor yn dderbynniol o'r fenter ac yn hydfrydwch o'r gamp. A gobeithi'r bydd mwy o eisteddiadau i ddisgyblion wahanol flwyddyn.

6. Swyddog Datblygu Cychfan - Teifi Wyn Jones.

Cynnig Ardoll Ymwelwyr - Gwahoddiad i Ymgysylltu.

Cynghorwyr wedi derbyn cyn y cyfarfod er mwyn iddynt gael rhoi barn fel unigolyn.

Mae yn mynd i rhoi effaith ddwy ffordd tal ychwanegol a'r yr Ymwelwyr. A llai yn defnyddio Gwestai.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis yn dreulio, gyda adroddiad yn ol os bydd rhywbeth angen sylw.

RHODDION.

8. Dim.

PLWYFOL.

9. Mynwent Gymunedol Bodffordd.

Derbyniodd y Clerc adroddiad pan oedd cynnal a chadw yn cymryd lle, a daethpwyd o hyn i bentyrau o Fagiau Gwyrdd Baw Cwn wedi lluchio o'r lon i waelod y Fynwent rhai yn ganol yr Eiddew. Mae yn amlwg fod rhywun yn cerdded yn rheolaidd a bod y fan yma yn le taflu gwastraff. Mae y Cyngor Sir wedi cael gwybod ac yn edrych i fewn i'r digwyddiad. Mae y Clerc wedi cael neges yn dweud fod a ferch a ci gwyn yn cerdded yn rheolaidd. (Dyfaliad ydyw hyn) Mae yn drosedd a phan gaiff pwy bynnag sydd wedi ei wneud eu dal bydd dirwy drom. Gwarthus o beth dim parch. Y Cyngor yn symud ymalen i gael bin baw cwn.

10. Cafn Blodau Bronheulog Bodffordd.

Cafwyd nodyn gan Dylan wedi ei godi yn Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Bodffordd noswaith o'r blaen. Cyfrifoldeb cymryd a chynnal a chadw y cafn blodau (Dim diddordeb yn yr un yn groeslon Llangwyllog) Yn gofyn am fwy o gyfraniad, nad ydynt yn meddwl fod £75 yn ddigon i gyfo'r costau. Cafwyd trafodaeth a penderfynwyd fod y lle y mae, yn rhy beryg i blant yr Ysgol. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. G Jones i adael. Mae y Cyngor yn gweithredu ymhellach.

11. Balchder yn ein Cymuned. (Balchder Bro)

Oherwydd nad oedd arian ar gael i arwyddion fflachio (Cyng. Ms N Dafydd wedi gwneud cais)

Rhodddwyd y canlynol ar y Rhaglen i'r Cynghorwyr feddwl amdanynt:-

Meinciau / Bwrdd Picnic. Blwch Planhigion / Blodau. Bwrdd Hysbysiadu. Offer Chwarae.

Gwelliannau'r Gysgodfan Bws. Arwyddion Croeso i'r Pentref. Gwelliannau Neuadd Bentref.

Bodffordd. Bodwrog, Llandrygarn, Trefor.

Nid thrafodwyd yr uchod oherwydd dyweddod un o'r Cynghorwyr fod trafodiad wedi ei ganiatau. Yn anffodus nid oedd Cyng. N Dafydd yn bresennol. Bydd y clercc yn cysylltu.

12. Gweithgareddau Cae Ty Du, Bodffordd.

Rhan o'r Cae weid ei ffensio. Cafwyd ar ddeall mae chwilio am glawr draen oeddynt, ond pam gymaint o ffens a giat. Amser a ddengys. Efallai daw gair i'r Cyngor.

13. Mae gwrych Ysgol Bodffordd dros y ffordd i 8 a 9 Bronheulog a Cae Bach Aur, Bodffordd angen sylw buan. Y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir.

14. Cafodd y Cyngor ar ddeall fod problem gyda Gwylanod Môr yn Bronheulog, Bodffordd mae y Cyngor Sir wedi bod gyda perchnogion y Tai yn ei rhybuddio o'i-bwydo. Ond mae wedi disgyn ar Glustiau Bydder. Mae'r dyrusbwnc wedi gwaethygu ar ôl hyn. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir i edrych am gamau pellach. Mae yn fater difrifol, a bydd rhywun yn cael ei glwyfo.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.

Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol.

16. Y Cyngor yn meddwl am y posibilrwydd o gael Cysgodfan Bws wrth ple mae'r man disgwyl dros y ffordd i 5 Bronheulog Bodffordd. Y gost sydd yn anrhythrol.

MATERION ARIANNOL.

17. Cyfrif Rhedegol. £25,455.95

ARIAN MYNWENT GYMUNEDOL. £11,846.63. (Rhan o'r cyfrif Rhedegol)

TALIADAU:

18. Clerc £1,034.12 (Dau fis Gorffennaf ac Awst) SCC Trefnu Awdit 2025/26 £128.15. J A Foulkes (Awdit Mewnol) 2025/26. £200.00. Awdit Cymru (Awdit Allanol) 2024/25. £277.85. E Frazer (C A C Fynwent Gymunedol) £330.00 E Frazer (Torri coed a'r Eiddew y Fynwent Gymunedol) £1,650.00. Neuadd Goffa Bodwrog (Ystafell) £25,00.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. G Jones eilio Cyng. J Evans.

D Owen (Clerc)